



2025/26

Stori Ein Blwyddyn

ANTUR WAUNFAWR



Sesiwn Fawr Dolgellau

ANTUR WAUNFAWR



Haliballw

ANTUR WAUNFAWR



Hafan y Môr

ANTUR WAUNFAWR



Parti peintio pumpen

1

Waunfawr

Bryn Pistyll

- Prif Swyddfa,

- Caffi Blas y Waun,

- Bragdy, Gerddi,

- Cynllun Cartrefu a aml-ofynion

2

Caernarfon

- Warws Werdd

- Beics Antur

- Llarpio Antur

Cyfeiriad:

Antur Waunfawr, Bryn Pistyll, Waunfawr, LL55 4BJ

📞

01286 650721

➤

swyddfa@anturwaunfawr.cymru

🌐

anturwaunfawr.cymru

📱

@anturwaunfawr

Rhif Elusen: 515445 | Rhif Cwmni: 01832813



Gair gan y Prif Weithredwr a Cadeirydd y bwrdd

Ellen Thirsk
Prif Weithredwr

Roedd blwyddyn 2025/26 yn un llwyddiannus unwaith eto gyda'r adroddiad yma yn adlewyrchiad cryno o'r gwaith sydd yn cael ei gyflawni yn yr Antur er budd yr unigolion rydym yn eu cefnogi.

Rydym yn credu yn gryf yn ein cymunedau ac mae'r gwasanaethau hanfodol rydym yn eu darparu i dros 70 o unigolion efo anableddau dysgu amrywiol eu natur yn sylfaen i bob dim rydym yn ei gyflawni, ac wedi ei selio ar ein gwerthoedd craidd o barch, llesiant, cynaladwyaeth, grymuso a proffesiynoldeb.

Fel pob menter gymdeithasol arall mae'r

Antur wedi ac yn wynebu yr her blynyddol o gynnal gwasanaethau a busnesau o safon uchel mewn hinsawdd economaidd sydd yn heriol i bawb. Er mwyn cynllunio ymlaen ac ymateb i'r gofyn rydym yn y broses o greu strategaeth er mwyn pennu ein prif blaenoriaethau dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae arwain yr Antur yn wir anrhydedd i mi ac hoffwn gymryd y cyfle o waelod calon i ddiolch yn fawr i'r unigolion, ein rhieni/gofalwyr, y staff, ein comisiynwyr gwasanaethau gofal ac amgylcheddol, arianwyr, prif bartneriaid, Cadeirydd y Bwrdd ac aelodau y Bwrdd Rheoli am yr egni ac eu hymrwymiad parhaus.

Dr Catrin Elis Williams
Cadeirydd

Fel Cadeirydd Bwrdd yr Antur, mae'n fraint i mi gael cyd-gyflwyno'r adroddiad hwn. Ers dros bedair degawd mae'r Antur wedi cyfoethogi bywydau oedolion ag anableddau dysgu drwy ddarparu cyfleoedd gwaith a hamdden, gydag anghenion yr unigolyn yn dod yn gyntaf bob tro.

Mae awyrgylch diogel a chefnogol yr Antur yn meithrin sgiliau ymarferol, cymdeithasol a chreadigol drwy weithgareddau hwyliog, prosiectau cymunedol a chyfleoedd

hyfforddi. Fel mam i un o'r unigolion sy'n rhan o'r fenter, rwy'n dyst i effaith gadarnhaol ac ystyrlon yr Antur ar fywydau'r oedolion hyn, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r agweddau cynhwysol yn sicrhau cefnogaeth sy'n adlewyrchu anghenion a chryfderau pob unigolyn yn ddiwahân. Caiff holl ddefnyddwyr yr Antur y cyfle i ddisgleirio!

Diolch am y pleser o gael cyd-weithio â phawb sy'n cyfrannu at lwyddiant Antur Waunfawr. Mwynhewch y darllen!

Nod ac Amcanion Antur Waunfawr

Darparu profiadau gwaith a gweithgareddau ystyrlon a deniadol a chyfleoedd hyfforddiant blaengar mewn amgylchedd cefnogol i bobl ag anableddau dysgu.

Darparu cartrefi o ansawdd uchel gyda chefnogaeth a pharch i rymuso'r defnyddwyr gwasanaeth i fyw bywydau llawn ac annibynnol fel tenantiaid.

Darparu cynlluniau cynaliadwy a gwasanaethau ailddefnyddio ac ailgylchu proffesiynol yng ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â chyrrff statudol a phreifat.

Datblygu modelau o gynllunio person canolog a hyrwyddo Cefnogaeth Weithgar mewn cynlluniau personol unigolion, a rhaeadru'r broses trwy weithgaredd a gwaith yr Antur.

Hyrwyddo integreiddio a byw yn iach ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a darpariaeth hamdden i gyfarch iechyd da, llesiant a hapusrwydd sy'n ateb gwir ofynion y defnyddwyr gwasanaeth.



Bod yn gyflogwr rhagorol a blaengar, a hybu'r iaith, diwylliant, a'r economi leol.

Darparu cyfleusterau hygyrch i ymwelwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol, a meithrin diddordeb a ffynonellau incwm cynaliadwy o'r gweithgareddau a'r safleoedd.

Datblygu gweithgareddau cynaliadwy sy'n gydnaws ag anghenion ardal Waunfawr a Chaernarfon a chefnogi'r gymuned ehangach, a gwarchod yr amgylchedd.

Ein Gwerthoedd

Parch

Rydym yn dangos parch tuag at unigolion ag anableddau dysgu, staff, y cyhoedd, y gymuned a'n diwylliant bob tro. Mynegwn empathi gyda'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth er mwyn deall a diwallu eu hanghenion.

Llesiant

Er mwyn cyfarch hapusrwydd a llesiant rydym yn darparu dewis eang o weithgareddau a gwasanaethau gyda'r unigolyn yn ganolog.

Cynaliadwy

Gweithredwn yn gynaliadwy - yn gymunedol, amgylcheddol ac yn ariannol er mwyn cynnal diwylliant, iaith, cymuned ac amgylchedd ffyniannus.

Grymuso

Datblygu'r unigolyn a'r gymuned i'w llawn botensial yw arwyddair yr Antur ac anelwn i rymuso'r economi leol a gwarchod yr amgylchedd hefyd.

Proffesiynol

Arweinir a rheolir y mudiad yn effeithiol gan Fwrdd a swyddogion profiadol gydag agwedd entrepreneuriaidd i gyflawni gwasanaethau o safon.

Datganiad Llesiant

Hyrwyddo llesiant, iechyd da a hapusrwydd, a galluogi unigolion fydd conglfeini gwasanaethau Antur Waunfawr i'r dyfodol.

Darperir gofal, cefnogaeth weithgar, hyfforddiant a phrofiad gwaith mewn modd effeithlon a chymesur i ateb gofynion pobl ag anableddau dysgu yn ein ardal leol.

Fel menter gymdeithasol bydd Antur Waunfawr yn cyfarch anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol y gymuned leol- a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu ddewis iaith yr unigolyn, ac mewn partneriaeth.

Ein nod yw creu cymdeithas arloesol, gyfartal, gynhyrchiol a charbon isel trwy feithrin teulu o fusnesau cynaliadwy yn lleol - cychwyn wrth ein traed a gweithredu'n uchelgeisiol i sicrhau llesiant a chymunedau gwydn.

Gofal a Chefnogaeth

Cynllun Cartrefu

Mae ein Cynllun Cartrefu yn creu cyfleoedd i bobl fyw mewn cartrefi diogel a chynhwysol, gan eu galluogi i fyw bywyd mor annibynnol â phosibl gyda'r gefnogaeth gywir. Trwy weithio mewn partneriaeth, mae'r cynllun yn datblygu cartrefi sy'n adlewyrchu anghenion a dymuniadau pobl ag anableddau dysgu, gan roi llais a dewis iddynt yn eu bywydau bob dydd. Mae Cynllun Cartrefu yn rhan bwysig o weledigaeth Antur Waunfawr i greu cymunedau lle mae pawb yn cael cyfle i ffynnu.

Yn Cefnogi:

13

O bobl ag anableddau dysgu

10

O dai

Creu Cartref, Creu Cyfleoedd.

Mae gan bawb yr hawl i gael lle y gallent ei alw'n gartref, lle maent yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu byw bywyd ar eu telerau eu hunain.

Dros y blynnyddoedd diwethaf rydym wedi helpu i greu cartref a chyfleoedd newydd i ddau unigolyn drwy ein Cynllun Cartrefu.

Pan gysylltodd Cyngor Gwynedd â ni am Person A,



a oedd mewn perygl o orfod symud allan o'r Sir gan nad oedd llety addas ar gael yn lleol. Byddai hyn wedi golygu gadael ei deulu a'r gymuned oedd mor bwysig iddo.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd a Cartrefi Cymru, fe wnaethom drawsnewid ein byngalo seibiant yn gartref parhaol â chymorth. Ein nod oedd adeiladu'r cymorth o amgylch Person A, gan ddeall ei anghenion ac ei gryfderau.

Drwy weithio gyda gweithwyr proffesiynol arbenigol a defnyddio dulliau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol (PBS), gwnaethom gyflwyno newidiadau bach ond ystyrlon a wnaeth helpu Person A i ddod yn fwy tawel ei feddwl, hyderus ac annibynnol.

Mae'r effaith wedi bod yn sylweddol ac mae ei anghenion cymorth wedi lleihau o 2:1 i 1:1, mae ei ddibyniaeth ar feddyginiaeth wedi gostwng, ac mae wedi cael ei ryddhau o wasanaethau seiciatrig arbenigol.

Yn ogystal creodd y cartref hwn gyfle hefyd i Person B, gan roi lle diogel a chefnogol iddi barhau

i ffynnu yn agos at ei theulu a'i chymuned. Ar ôl cyfnod o ddod i adnabod eu gilydd, mae Person A a Person B bellach yn rhannu cartref lle gallent fwynhau annibyniaeth a phrofiadau newydd.

Mae Person B wedi manteisio ar gyfleoedd newydd gan gynnwys gweithio yn ein caffi, sesiynau cerddoriaeth, grwpiau theatr a dosbarthiadau Makaton.

Mae'r stori hon yn dangos grym cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Drwy wrando, addasu a gweithio gyda'n partneriaid, rydym wedi helpu dau unigolyn i greu bywydau mwy annibynnol a chyflawn mewn cartref lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn rhan o'i cymuned.

Aml Ofynion

Mae'r gwasanaeth aml-ofynion yn Antur Waunfawr yn cynnig cefnogaeth un-i-un a chyfleoedd iechyd a llesiant i bobl ag anableddau dwys a chymhleth yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth, sydd ar gael 6 diwrnod yr wythnos, yn cynnwys sesiynau lles ar ein safle yn Waunfawr, megis cerddoriaeth, carioci, ac arlunio, yn ogystal â gweithgareddau yn y gymuned, sef nofio, dringo, beicio gyda sesiynau Tonic yn Galeri Caernarfon yn un o'r ffefrynnau .

Eleni mae'r unigolion wedi mynychu cryn dipyn o sesiynau Llwybrau Llesiant er mwyn ehangu profiadau a gweithgareddau amrywiol sydd ar gael. Rydym hefyd wedi bod yn ffodus i gydweithio gyda Galeri Caernarfon a Ambient Jam i ddarparu sesiynau synhwyrol i'r unigolion yn y Galeri dan arweiniad arbenigol Cai Tomos. Ar benwythnosau, rydym yn cynnig gwasanaeth hamddenol gyda thripiâu lleol amrywiol, sy'n darparu ysbaid gwerthfawr i rieni.



Ystadegau:

16 unigolyn wedi derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth

Dros 24,000 awr o gefnogaeth wedi'i darparu yn ystod y flwyddyn

519 awr o gefnogaeth bob wythnos

6 gweithgaredd grŵp ar gyfartaledd bob wythnos yn cefnogi iechyd, llesiant a chysylltiad cymunedol

300 o weithgareddau grŵp llesiant wedi mynychu



Safle Bryn Pistyll - Gerddi a Bragdy

Safle Bryn Pistyll, lle mae pobl yn datblygu sgiliau drwy weithio gyda natur, garddio a chynhyrchu cynnyrch lleol yn yr awyr agored. Gyda dros 7 erw o erddi a pharc natur, mae'r safle yn cynnwys gerddi tyfu, maes chwarae cynhwysol, Caffi, gweithdy a Bragdy. Mae'r mannau hyn yn cefnogi dysgu, llesiant a chysylltiad â'r amgylchedd.

Mae'r tîm yn tyfu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau ar y safle, gan ddefnyddio'r cynnyrch i greu cynnyrch Antur Waunfawr megis seidr, jamiau a siytni. Mae'r gwaith hwn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i bobl ag anableddau dysgu i ddatblygu sgiliau ymarferol mewn garddio, cynhyrchu, pecynnu a gwerthu.



Y Berllan

Uchafbwyntiau'r flwyddyn:

- 1 Tunnell o ffrwythau wedi'u dyfu ar y safle neu dderbyn drwy roddion cymunedol
- 1,519 Potel o seidr wedi'u cynhyrchu
- 778 Jariau o Nionod Picl wedi'u cynhyrchu
- 9 o bobl ag anableddau dysgu yn mynychu'r safle pob wythnos



Dros y flwyddyn, mynychwyd nifer o ffeiriau a digwyddiadau lleol i werthu ein cynnyrch a chysylltu â'n cymuned. Ymhlith y digwyddiadau a fynychwyd roedd Gŵyl Fwyd Caernarfon, Sioe Môn, Gŵyl Nadolig Glynllifon a Fron Goch, yn ogystal â stondin wythnosol yn Neuadd Farchnad Caernarfon bob dydd Mawrth.

Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig mwy na chyfle i hyrwyddo a gwerthu ein cynnyrch, maent yn ffordd bwysig o gryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned leol. Mae unigolion Antur Waunfawr yn rhan annatod o'r stondinau, gan ddatblygu sgiliau mewn gwasanaeth cwsmeriaid, gwerthu a chyfathrebu.

Safle Bryn Pistyll - Caffi Blas y Waun

Roedd yn bleser ailagor Caffi Blas y Waun i'r cyhoedd, gyda digwyddiad agoriadol swyddogol ar 16 Gorffennaf 2025 i ddathlu'r garreg filltir hon.

Gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Cymorth Argyfwng Bwyd drwy Cist Gwynedd, Cyngor Gwynedd a chyllid SPF drwy Mantell Gwynedd, bu modd buddsoddi mewn offer newydd, gwella'r ddarpariaeth a darparu hyfforddiant i staff ac unigolion ag anableddau dysgu sy'n derbyn hyfforddiant a chefnogaeth yn y caffi.

Ni fyddai ailagor y caffi wedi bod yn bosibl heb haelioni a chefnogaeth busnesau lleol a phartneriaid a helpodd i roi bywyd newydd i'r lle. Hoffem ddiolch yn



arbennig i Travis Perkins a Dodrefn a Lloriau Perkins Furniture & Flooring am eu cymorth gwerthfawr gyda gosod cegin a lloriau newydd, ac i CARN Cymunedol a Zoe Lewthwaite Design am greu prosiect uwchgylchu unigryw sydd wedi dod â lliw a chreadigrwyd i'r gofod. Hoffem hefyd ddiolch yn fawr i Ceurwyn o Coffi Dre am roi hyfforddiant barista, gan helpu ein staff a'r unigolion rydym yn eu cefnogi i ddatblygu sgiliau newydd a chynyddu eu hyder.

Mae'r caffi wedi creu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu sgiliau, magu hyder a chysylltu â'r gymuned mewn amgylchedd cynhwysol. Bellach wedi'i gofrestru fel Man Croeso Cynnes Cyngor Gwynedd, mae Blas y Waun yn cynnig lle croesawgar sy'n gweini prydau cartref, te prynhawn a chacennau cartref o safon uchel i'r gymuned leol ac ymwelwyr.

Uchafbwyntiau'r flwyddyn:

- 11 yn derbyn cefnogaeth yn y caffi i ddatblygu sgiliau a profiad gwaith
- £14,911.32 wedi dderbyn mewn grantiau



Ffair Haf



Warws Werdd

Siop a chanolfan ail-ddefnyddio sy'n rhoi bywyd newydd i ddodrefn, tecstilau ac eitemau dros ben. Drwy gasglu, adfer ac ailwerthu eitemau o Ganolfannau Ailgylchu Cyngor Gwynedd, y gymuned a busnesau lleol, rydym yn lleihau gwastraff, yn cefnogi'r economi gylchol ac yn darparu cyfleoedd gwaith a datblygu sgiliau i bobl ag anableddau dysgu. Mae'r Warws hefyd yn ganolfan gymunedol, gyda Ffiws a'i ofodau creadigol a chyfarfod yn darparu lle ar gyfer hyfforddiant, gweithdai a digwyddiadau.

Ystadegau:

34.6 Tunnell o ddodrefn
wedi'u harbed o dirlenwi

302.7 Tunnell o decstilau
wedi'u gasglu a'u hailddefnyddio

16 o bobl ac anableddau dysgu
wedi cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a phrofiad gwaith

Rydym wedi partneriaethau gyda busnesau lleol sy'n cyfrannu stoc diwedd llinell a dodrefn dros ben ar gyfer ein siop, megis Dodrefn a Lloriau Perkins, Caprice a Dodrefn Parry's.

Diolch yn fawr i:



Paratoi pargeli Ebay



Casglu dodrefn



O Wast i Werth

Ym mis Medi, lanswyd ymgyrch O Wast i Werth gyda digwyddiad yn y Warws Werdd i nodi datblygiad newydd yr adeilad sydd wedi cael ei ariannu drwy grant Economi Gylchol Llywodraeth Cymru. Daeth partneriaid, cyngorwyr a rhanddeiliaid ynghyd i ddatlun'r fenter ac i gryfhau cydweithio ar ddatblygu'r economi gylchol yng Ngwynedd.

Fel rhan o'r ymgyrch, rydym wedi gweithio gyda'r arbenigwraig uwchgylchu ac ail-glustogi, Siân Griffiths, i drawsnewid dodrefn a gasglwyd o Ganolfannau Ailgylchu Gwynedd a'r gymuned yn ddarnau unigryw o ansawdd uchel. Mae'r gwaith hwn hefyd yn rhoi cyfle i unigolion Antur Waunfawr ddatblygu sgiliau ymarferol mewn adfer ac uwchgylchu dodrefn.

Mae O Wast i Werth yn dangos sut y gall ail-ddefnyddio a chydweithio greu dyfodol mwy cynaliadwy lle mae adnoddau'n cael eu cadw mewn defnydd, pobl yn datblygu sgiliau a gwastraff yn cael ei drawsnewid yn werth.

£5,000 o gefnogaeth grant
gan Gronfa'r Economi Gylchol Menter Môn

Dros 30
o sesiynau uwchgylchu

Dodrefn Del

Ariannwyd y prosiect yma drwy Raglen Economi Gylchol Menter Môn. Cyflogwyd Swyddog Ailgylchu i weithio gyda Chanolfannau Ailgylchu Gwynedd i achub eitemau addas cyn iddynt gael eu gwaredu. Cafodd yr eitemau eu glanhau, eu hatgyweirio a'u hailwerthu yn y Warws Werdd, gan roi bywyd newydd iddynt a chreu buddion amgylcheddol a chymdeithasol i'r gymuned.

Darparwyd y prosiect cyfleoedd ymarferol i unigolion ag anableddau dysgu a gwirfoddolwyr gymryd rhan ym mhob cam o'r broses o gasglu a didoli i atgyweirio a gwerthu gan ddatblygu sgiliau, hyder ac annibyniaeth.



Wedi cydweithio gyda
8 Ganolfan Ailgylchu

576 eitem
wedi'u hachub o'r ganolfannau

12.2 Tunnell o ddodrefn
wedi'i ddargyfeirio o wastraff



Beics Antur

Mae Beics Antur, sydd wedi'i leoli ym Mhorth yr Aur yng Nghaernarfon, yn cynnig gwasanaethau hurio, trwsio a gwasanaethu beiciau, gan gynnwys beiciau confensiynol, e-feiciau a beiciau addasedig. Mae'r gweithdy yn darparu cyfleoedd gwaith a datblygu sgiliau i 8 pobl ag anableddau dysgu, gan eu cefnogi i feithrin hyder a datblygu sgiliau ymarferol mewn cynnal a chadw beiciau.

Beicio i Bawb

Mae prosiect Beicio i Bawb yn hyrwyddo iechyd, llesiant a theithio llesol drwy sicrhau bod cyfleoedd beicio hygyrch ar gael i bobl o bob oedran a gallu. Derbyniodd y prosiect gefnogaeth bellach drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin, drwy Gronfa Diwylliesiant Cyngor Gwynedd, gan alluogi'r tîm i barhau i ddarparu sesiynau mewn ysgolion, cymunedau a chartrefi gofal ledled Gwynedd.

Drwy ddefnyddio fflyd o feiciau safonol, e-feiciau a beiciau addasedig, mae'r prosiect yn helpu pobl i ddatblygu sgiliau beicio, magu hyder a mwynhau manteision gweithgarwch corfforol a theithio llesol.



Ni allai'r tîm fod wedi bod yn **fwy cyfeillgar, cymwynasgar na chefnogol**. Roeddem yn grŵp mawr o bobl o wahanol oeddrannau, meintiau a galluoedd, ac roedd **digon o ddewis o feiciau** i ddiwallu anghenion pawb. **Cawsom ofal arbennig gan y tîm**, gyda chyingor defnyddiol ac argymhellion ar lwybrau a mapiau. Fe wnaethant hyd yn oed **feicio gyda ni i ddechrau'r llwybr er mwyn sicrhau ein bod yn gallu mynd drwy'r dref yn ddiogel ac yn hyderus**. Ni allem argymhell Beics Antur yn uwch, ac **rydym yn ddiolchgar iawn i'r tîm am wneud y diwrnod yn un mor llwyddiannus i bawb**.

Ymwelydd
Mis Awst 2025



Effaith Beicio i Bawb:

271 gweithgaredd wedi'u cynnal

370 cyfranogwr wedi cymryd rhan mewn sesiynau beicio hygyrch

12 ysgol gynradd wedi cymryd rhan mewn sesiynau Sgiliau Beicio

161 o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 wedi datblygu eu sgiliau beicio a'u hyder



Ysgol Pendalar



Yn y gweithdy

Llarpio Antur

Mae Llarpio Antur yn darparu gwasanaeth llarpio papur cyfrinachol diogel ac amgylcheddol gyfrifol i fusesau, sefydliadau a chartrefi ledled Gogledd Cymru. Wedi'i leoli yng Nghaergyglchu, rydym yn casglu, llarpio ac ailgylchu dogfennau cyfrinachol yn unol â gofynion diogelu data, gan roi tawelwch meddwl i gwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu cyfleoedd gwaith a datblygu sgiliau i bobl ag anableddau dysgu.

Yn ystod y flwyddyn a gyda chefnogaeth barhaol Adran Amgylcheddol, Cyngor Gwynedd symudodd y gwasanaeth i uned newydd ar Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon, gan sicrhau parhad y busnes, a chyfle i ddatblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Dros 2,000 o gwsmeriaid yn defnyddio'r gwasanaeth

13,786 sachau coch o ddogfennau cyfrinachol wedi'u casglu a'u prosesu

262 tonnall o bapur wedi'u paratoi ar gyfer ailgylchu

Darparu cyfleoedd gwaith a datblygu sgiliau i 8 o bobl ag anableddau dysgu



Iechyd a Llesiant

Mae iechyd a llesiant wrth wraidd ein gwaith, gan greu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu i roi cynnig ar bethau newydd, datblygu hyder a chysylltu ag eraill drwy brofiadau creadigol, corfforol a chymdeithasol. Drwy fynychu gweithgareddau fel Halibalw, Ambient Jam, Strictly Gwynedd, Môn a Chonwy a llawer iawn mwy, rydym yn cefnogi pobl i fynegi eu hunain, datblygu sgiliau newydd a mwynhau profiadau cynhwysol sy'n cyfrannu at lesiant a hapusrwydd bob dydd.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n holl bartneriaid, gan gynnwys Galeri Caernarfon, Llwybrau Llesiant, Theatr Bara Caws a mwy, am eu cefnogaeth a'u cydweithio wrth greu'r cyfleoedd gwerthfawr hyn i Antur Waunfawr.

Halibalw

Daeth Theatr Bara Caws, Galeri ac Antur Waunfawr ynghyd i ailsefydlu partneriaeth Halibalw, gan ddarparu cyfres o weithdai creadigol i unigolion ag anableddau dysgu. Arweiniwyd y sesiynau gan artistiaid Bara Caws, gan roi cyfle i gyfranogwyr greu, datblygu a pherfformio sioe o'u dewis o flaen cynulleidfya theatr fyw.

Roedd unigolion Antur Waunfawr wrth galon y broses, gan ddatblygu syniadau a siapiau'r perfformiad o'r cychwyn cyntaf. Ar ôl wythnosau o greu ac ymarfer, daeth y prosiect i ben gyda pherfformiad llwyddiannus o Halibalw: Waunbalw y Panto ym mis Rhagfyr 2025.

Mae Halibalw yn fwy na pherfformiad yn unig - mae'n brosiect sy'n rhoi llais, hyder a chyfleoedd



newydd i'r rhai sy'n cymryd rhan. Drwy'r broses, datblygwyd sgiliau cymdeithasol, creadigrwydd a hyder, gyda chyfranogwyr yn profi ymdeimlad o falchder a chyflawniad wrth weld eu gwaith ar y llwyfan.

- Cymerodd **17 o unigolion** rhan yn y prosiect
- 13 sesiwn ymarfer** wedi'u cynnal
- 1 perfformiad byw**



Dawns Gogledd Cymru

Yn ystod y flwyddyn cymerodd rhai o griw Antur Waunfawr ran yn Dawns Gogledd Cymru 2025, digwyddiad cynhwysol a drefnwyd gan Llwybrau Llesiant mewn partneriaeth â Dawns i Bawb, Mencap Môn, STAND Gogledd Cymru a Conwy Connect.

Daeth dawnswyr ag anableddau dysgu ac awtistiaeth o bob rhan o Ogledd Cymru at ei gilydd ar lwyfan yn Venue Cymru, Llandudno. Roedd y digwyddiad yn gyfle i unigolion rannu a datblygu eu sgiliau creadigol, magu hyder a pherfformio gyda balchder o flaen cynulleidfa.




Ambient Jam - Cai Tomos a Galeri Caernarfon

Mae Ambient Jam Cymru yn bartneriaeth greadigol rhwng Galeri, Entelechy Arts ac Antur Waunfawr, sy'n defnyddio cerddoriaeth, dawns, symudiad a synhwyrâu i greu profiadau cynhwysol i unigolion ag anableddau dysgu ac anghenion dwys a chymhleth.

Wedi'i arwain gan Cai Tomos, mae'r sesiynau'n cynnig amgylchedd croesawgar a diogel lle gall unigolion fynegi eu hunain, ymlacio ac archwilio creadigrwydd drwy sain, symudiad a rhyngweithio. Mae'r prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant unigolion, gan helpu i feithrin hyder, lleihau pryder a chreu cysylltiadau ystyrlon.

Mae Ambient Jam wedi dod yn ofod lle gall pawb gymryd rhan yn eu ffordd eu hunain. Diolch i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth i wireddu'r bartneriaeth werthfawr hon.




Adroddiad Gwerth Cymdeithasol

Mae'r adroddiad hwn yn mesur y gwahaniaeth y mae ein Gwasanaethau Gofal yn ei wneud i'r bobl rydym yn eu cefnogi, eu teuluoedd ac ein staff. Mae'n dangos y gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a grëir drwy ein gwasanaethau, ac yn tynnu sylw at y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnir bob dydd.


Cipolwg




Canlyniadau Cadarnhaol ein defnyddwyr gwasanaeth



Deilliannau i'r defnyddwyr gwasanaeth o safbwynt teuluoedd




Effaith ar deuluoedd



Gwerth ehangach



Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (SROI)





Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiad llawn.

Astudiaeth achos Adroddiad Gwerth Cymdeithasol

Ailadeiladu Hyder ac Annibyniaeth - Stori Person B

Mae taith Person B dros y flwyddyn ddiwethaf yn stori o dwf, gwydnwch ac adnewyddiad o bwrpas. Yn dilyn cyfnod heriol yn ystod pandemig COVID, pan oedd cyfleoedd cymdeithasol yn gyfyngedig a phwysau ar ei theulu wedi cynyddu, daeth yn amlwg bod angen dull newydd i'w helpu i ddatblygu mwy o annibyniaeth a mwynhau bywyd llawnach.

Flwyddyn yn ôl, symudodd Person B i fyw yn un o dai Antur Waunfawr yn llawn amser, gan ddechrau pennod newydd yn ei bywyd. Mae'r newid hwn wedi cael effaith gadarnhaol iawn, gan roi'r cyfle iddi ddatblygu perthynas gefnogol gyda'i chyd-letywr, magu hyder a chymryd mwy o gyfrifoldeb yn ei bywyd bob dydd. Mae ei pherthynas gyda'i theulu hefyd wedi gwella, gan fod y pwysau a'r pryderon blaenorol wedi lleihau.

Mae Antur Waunfawr wedi chwarae rhan ganolog yn ei datblygiad. Mae Person B yn mwynhau treulio amser yn y caffi, lle mae'n teimlo ymdeimlad cryf o berthyn ac yn falch o gyfrannu drwy helpu gyda choginio a phobi ochr yn ochr â'r tîm. Mae'r cyfleoedd hyn wedi helpu iddi feithrin sgiliau newydd, datblygu hyder a theimlo'n werthfawr fel rhan o'r gymuned.

Heddiw, mae Person B yn byw bywyd gweithgar a chymdeithasol, gan fynychu Coleg Glynllifon a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys nofio, sesiynau

Makaton a gweithgareddau cymdeithasol gyda ffrindiau. Mae ganddi ddiddordebau sy'n dod â llawenydd iddi, o ganu karaoke i fwynhau cwisiau a threulio amser gyda phobl eraill.

Mae'r gefnogaeth mae Person B yn ei chael wedi seilio ar ei hanghenion, ei dewisiadau a'i dyheadau unigol. O ganlyniad, mae hi bellach yn fwy annibynnol, yn fwy hyderus ac yn fwy cysylltiedig â'i chymuned nag erioed o'r blaen, gyda llai o angen am gefnogaeth allanol.

Wrth edrych ymlaen, mae Person B yn gyffrous am y dyfodol ac am gyfleoedd newydd, gan gynnwys y posibilrwydd o fynd ar wyliau rhywbeth a oedd yn ymddangos yn bellach o'r blaen. Mae ei stori yn dangos effaith dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a sut y gall y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir alluogi pobl i fyw bywyd mwy annibynnol, ystyrlon a llawn.

- + Mwy o hyder
- + Mwy o annibyniaeth
- + Perthnasoedd cryfach
- + Bywyd cymdeithasol gweithgar

Diolch am eich Cefnogaeth!

Ni fyddai gwaith Antur Waunfawr yn bosib heb gefnogaeth ein cyllidwyr, partneriaid a'n cymuned. Diolch o galon i bawb sydd wedi gweithio gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda'ch cefnogaeth chi rydym yn gallu parhau i greu cyfleoedd, datblygu gwasanaethau a chefnogi pobl i fyw'r bywydau maen nhw eisiau byw.



...a llawer iawn fwy o fentrau cymunedol a sefydliadau eraill. **Diolch yn fawr iawn!**